NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Trastuzumab emtansine ar gyfer trin canser y fron datblygedig, sy'n HER2-positif ar ôl trastuzumab a taxane

19 Gorffennaf 2017

Mae trastuzumab emtansine ar gael ar y GIG. Mae'n opsiwn posibl i oedolion sydd eisoes wedi cael triniaeth ar gyfer canser datblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle mae'r canlynol yn gymwys:

- mae ganddynt ganser sy'n dderbynnydd ffactor twf epidermol dynol 2 (HER2)-positif na ellir ei dynnu drwy lawdriniaeth
- maent eisoes wedi cael trastuzumab a taxane, ar wahân neu gyda'i gilydd ac
- mae ganddynt glefyd sydd wedi dod nôl yn ystod therapi cynorthwyol neu o fewn 6 mis i orffen y therapi.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Gofal Canser y Fron, 0808 800 6000
- Breast Cancer Now, 0333 207 0300
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2596-4

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights